# Rhaglen Gyflawn

## Eitem 6 - Cwestiynau

**EITEM 6 – CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Pa drefniadau a wnaed gan yr Adran Addysg i sefydlu faint yn union o blant Gwynedd sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae ysgolion Gwynedd yn bodoli o fewn cyd-destun polisi iaith addysg sydd â'r nod o sicrhau dwyieithrwydd i bawb. Gwneir hynny yn y lle cyntaf, drwy drochi dysgwyr yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar hyd at 7 oed, ac yn dilyn hynny, datblygir sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. O ystyried hynny mae holl blant Gwynedd yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn unigryw ac yn glod i weledigaeth Gwynedd ers degawdau."

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"I ba raddau y gellir turio ymhellach i ystadegau cofrestr tai y Cyngor a sefydlu'r nifer sy'n hanu o Ddwyfor, o Feirion, o Arfon, o'r siroedd sy'n ffinio â Gwynedd, y nifer sy'n siarad Cymraeg a'r nifer a fu mewn ysgol yng Ngwynedd?"

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Fel rhan o broses ymgeisio am dŷ cymdeithasol yng Ngwynedd, gofynnir i ddarpar ymgeiswyr gwblhau ffurflen gofrestru am eiddo cymdeithasol. Gofynnir y cwestiynau at bwrpas cofrestru ac asesu anghenion tai yn unig.

Tra rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu manylion sylfaenol megis cyfeiriad presennol, nid ydym yn casglu gwybodaeth ynghylch ble mae ymgeiswyr yn hanu, eu gallu i siarad Cymraeg nac a fuont mewn ysgol yng Ngwynedd ai peidio gan na fyddai'r wybodaeth hon yn berthnasol i bwrpas sefydlu eu hangen am eiddo cymdeithasol.

Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu fod yn ddigonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer pwrpas prosesu'r data, yn unol ag erthygl 5.1c Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR). Mae Deddf Tai 1996 hefyd yn gosod fframwaith gyfreithiol ar gyfer gosod tai cymdeithasol yng Nghymru. Nid yw gallu ieithyddol yn rhan o'r meini prawf statudol hyn ac felly ni allwn ei gynnwys yn gyfreithiol.

Mae'r pwyslais a roddir ar gysylltiad lleol ym Mholisi Gosod Tai Gwynedd yn un o'r rhai mwyaf caeth yng Nghymru, ac yn mynd hyd eithaf yr hyn yr sy'n bosibl ei gynnwys. Ers gweithrediad y Polisi Gosod Tai newydd, mae 97% o osodiadau ar gyfer eiddo cymdeithasol yn mynd i berson â chysylltiad â Gwynedd. Mewn rhai achosion, mae gofynion statudol arnom fel Awdurdod Lleol i gartrefu pobl sydd ag anghenion tai brys, megis rhai sy'n ffoi trais."

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

“Rwy’n siwr bod Arweinydd y Cymgor yn teimlo mor rwystredig a finnau yn ymateb Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ogystal a Llywodraeth Cymru i ddarparu atebion i drigolion Llanbedr a'r ardal ynglyn a'r ffordd osgoi a ffordd newydd i'r Maes Awyr.

Gai ofyn beth mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu ei wneud nawr i geisio lliniaru effaith y traffig ar fywydau trigolion Llanbedr yn ogystal a sicrhau bod y Cyngor yn cario ymlaen i ddenu swyddi o safon i'r ardal?”

**Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Fel y bydd y Cynghorydd yn gwybod, mae’r Cyngor yma wedi bod yn gweithio’n hynod galed i sicrhau fod Llanbedr a’r ardal ehangach yn gallu elwa o swyddi gwerth uchel fyddai’n dod yn sgil datblygiadau yn safle’r maes awyr gerllaw.

Mae hynny wrth gwrs yn cynnwys sicrhau ffordd mynediad addas i hwyluso datblygiad, ac ynghlwm â hynny ddatblygu ffordd newydd i ddatrys problemau tagfeydd traffig sylweddol mae pentrefwyr Llanbedr wedi ei ddioddef ers degawdau.

Roedd cais Coridor Gwyrdd Ardudwy yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddod a budd sylweddol i ardal eang o Feirionnydd. Roedd yn cynnwys mynediad newydd i safle’r maes awyr a fyddai hefyd wedi mynd i’r afael â phroblemau tagfeydd traffig yn Llanbedr.

Byddai hefyd wedi bod yn gyfle i hyrwyddo teithio llesol a theithio gwyrdd, gan ei gwneud yn bosib i bobl gerdded a beicio yn ddiogel, gwella mynediad i drafnidiaeth a gosod gwasanaeth gwefru ceir trydanol ar hyd yr A496.

Hynod siomedig felly oedd penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ddiweddar i beidio cefnogi cais y Cyngor am arian o gronfa Ffyniant Bro. Mae arnai ofn ei fod yn tanlinellu diffyg dealltwriaeth o du’r llywodraeth o ddifrifoldeb y sefyllfa.

Daw hyn wrth gwrs yn dilyn penderfyniad Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Cymru i wneud tro pedol ar ymrwymiad blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gynllun a fyddai wedi sicrhau mynediad i’r maes awyr a ffordd newydd ar gyfer Llanbedr.

Er nad ydym wedi llwyddo hyd yma i sicrhau’r cyllid sydd ei angen, rydym yn parhau i geisio datrysiad cadarnhaol fydd yn datgloi potensial economaidd maes awyr Llanbedr, yn datrys problemau tagfeydd traffig lleol, ac yn annog dewisiadau teithio cynaliadwy.

Byddwn yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i ystyried sut y gallwn gydweithio yn y tymor-byr i geisio gwella diogelwch a darpariaeth teithio llesol ar hyd yr A496 rhwng Llandecwyn a’r Bermo.

Yn wir, er cyhoeddiad siomedig y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn 2021 i beidio cefnogi’r cynllun gwreiddiol, mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn parhau i drafod datrysiadau fydd yn hwyluso mynediad i faes awyr Llanbedr.

Proses ar y cyd fydd asesu opsiynau i sicrhau mynediad i’r maes awyr, a bydd ein swyddogion yn parhau i geisio canfod datrysiad gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Rydw i'n llwyr ymwybodol o ddyheadau trigolion yr ardal, ac wrth ddatblygu unrhyw ddatrysiadau, byddaf yn sicrhau cyswllt gyda'r gymuned leol er mwyn sicrhau fod trigolion yr ardal yn ymwybodol o'r ymdrechion sydd yn parhau.

Mi allai eich sicrhau chi y bydd yr ymdrechion yma yn parhau nes y ceir datrysiad derbyniol ar gyfer Llanbedr ac ardal ehangach Ardudwy."

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Gareth Tudor Jones**

"Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ei dogfen, mae Llywodraeth Cymru yn dweud fel hyn: 'Un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg ... a hwyluso'r broses i ysgolion symud i'r categori nesaf ... i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg.'

A ydy'r Cyngor yn credu y dylai disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd dderbyn llai o addysg cyfrwng Cymraeg na disgyblion ysgolion Cymraeg dynodedig mewn siroedd eraill?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae holl blant Gwynedd yn derbyn addysg Gymraeg a dwyieithog yn unol â gofynion ein Polisi Iaith, sydd â'r nod o sicrhau dwyieithrwydd i bawb. Gwneir hynny yn y lle cyntaf, drwy drochi dysgwyr yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar hyd at 7 oed, ac yn dilyn hynny, datblygir sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau.

Mae ysgolion Cymraeg dynodedig yn bodoli mewn cyd-destun polisi cwbl wahanol i Wynedd, ble rhoddir dewis i rieni o safbwynt cyfrwng addysg eu plant, a'r dewis hwnnw'n golygu naill ai addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg cyfrwng Saesneg yn unig. Yng Nghaerdydd er enghraifft, cydnabyddir y cynnydd sydd wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg yno, ond eto, mae 82% o ddarpariaeth addysg Caerdydd yn parhau'n gyfrwng Saesneg gan eithrio canran sylweddol o ddysgwyr o'r cyfleoedd i fod yn ddwyieithog.

Yr hyn sydd yn destun balchder i ni yng Ngwynedd, yw fod y Gymraeg ac addysg ddwyieithog ar gael i bob dysgwr yn ddiwahân, a'n bod ni fel sir yn anelu at ddarparu addysg gynhwysol i bawb ar draws y sir."

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Dewi Jones**

"Yng Ngwynedd mae oddeutu 3,000 o bobl ar y gofrestr tai, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i geisio gwella'r sefyllfa yma?"

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Mae gan y Cyngor sawl cynllun i ymateb i'r argyfwng tai sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

**Cynllun Gweithredu Tai**
Mae Cynllun Gweithredu Tai arloesol Cyngor Gwynedd yn gosod yn glir amcan i 'sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella

eu hansawdd bywyd’. Yn y cynllun hwnnw mae sawl prosiect sy’n anelu i gynyddu nifer y tai sydd ar gael i bobl leol fyw ynddynt, naill ai trwy eu gosod i drigolion Gwynedd neu eu helpu i fod yn berchen arnynt. Er enghraifft:

- **Tŷ Gwynedd:** am y tro cyntaf ers 30 mlynedd, bydd y Cyngor yn adeiladu ei dai ei hun, gan ddechrau gyda chodi 10 eiddo canolraddol ar hen safle Ysgol Babanod Coed Mawr ym Mangor. Derbyniwyd caniatâd cynllunio ddiwedd 2022, a bydd gwaith yn dechrau ar godi’r tai yn hwyrach ymlaen eleni. Bydd y datblygiad hwn yn gartref i hyd at 46 person pan fydd wedi cwblhau. Mae safleoedd eraill, megis Maes Twnti, Morfa Nefyn, yn symud ymlaen yn dda hefyd, sydd â photensial am 9 o dai fydd yn helpu oddeutu 40 o bobl.
- **Prif Raglen Tai Cymdeithasol (PDP):** Ers dechrau’r Cynllun Gweithredu Tai, mae 173 o dai cymdeithasol wedi’u codi ar draws Gwynedd, gyda chyllideb o £9.4m (2021/22), £12.3m (2022/23) ac £13.5m (2023/24). Mae 88 wrthi’n cael ei adeiladu ar hyn o bryd (ers Ebrill 2021) ac mae 113 arall wedi’i glustnodi i ddechrau yn y flwyddyn nesaf. Trwy lwyddiant y Cyngor yn y maes yma, llwyddwyd i ddenu rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau codi tai cymdeithasol yn sgil tanwariant awdurdodau eraill, gan ddenu £1.1m yn ychwanegol at y gyllideb yn 2021/22. Anelir i godi 500 o dai cymdeithasol trwy’r rhaglen hon.
- **Prynu tai oddi ar y farchnad agored:** Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ein bod wedi prynu 8 tŷ oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i bobl sydd mewn angen tai. Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn dechrau’r broses o ddod â’r tai i’r safonau angenrheidiol cyn eu gosod i bobl leol. Mae potensial i helpu hyd at 36 o bobl gyda’r tai sydd wedi’u prynu, ac mae 5 tŷ arall yn mynd trwy’r broses gyfreithiol ar hyn o bryd.
- **Cynllun Lesu Cymru: Gwynedd:** Mae Cynllun Lesu Cymru yn gynllun sy’n annog landlordiaid preifat i osod eu heiddo i awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyfarch yr angen am lety tymor hir i bobl Gwynedd. Llwyddodd yr Adran Tai ac Eiddo i ddenu dros £2.7m tuag y Cynllun hwn, a chymaint yw’r diddordeb yn y Cynllun nes byddwn yn pasio’r targed gwreiddiol o 4 uned a bellach rydym yn anelu at 19 uned cyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23. Bydd hyn yn ei dro yn tynnu pwysau oddi ar y gofrestr dai cymdeithasol.
- **Cynllun Prynu Cartref Gwynedd:** Mae’r cynllun hwn yn cynnig cymorth ariannol i unigolion a theuluoedd cymwys trwy ganiatáu iddynt fenthyg y gwahaniaeth rhwng pris eiddo a’r hyn y gallent ei gynnig ar ffurf blaendal a morgais. Y nod trwy hyn yw gwneud tai yn fforddiadwy i drigolion sy’n cael trafferth cael morgais digonol i brynu tŷ ar y farchnad agored yn eu hardal leol. Ers ei lansio ar 13 Medi, 2022 mae 15 uned wedi’i gymeradwyo ar draws Gwynedd a 6 arall mewn amryw gamau yn ystod y broses. Daw’r ymgeiswyr o ardaloedd ar draws y sir gan gynnwys Llanystumdwy, Edern, Porthmadog, y Felinheli, Harlech a Llanrug.
- **Datblygiadau nodedig:** Mae cynlluniau sylweddol fel ailddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos, a chreu hwb Iechyd Penygroes, ar y gweill ar hyn o bryd, ac am leihau’r pwysau sydd ar y gofrestr dai maes o law.
- **Tai gwag:** Mae 104 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd ers dechrau’r Cynllun Gweithredu Tai, a thros £323,000 wedi’i wario. Nid yn unig mae hyn yn gwella ansawdd a diwyg pentrefi a threfi, ond bydd hefyd yn rhoi rhagor o opsiynau i unigolion a theuluoedd allu rhentu neu brynu cartref yng Ngwynedd.
- **Atal digartrefedd:** Mae’r Gwasanaeth Digartrefedd yn cyflawni gwaith ataliol allweddol er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd unigolion a theuluoedd yn eu canfod eu hunain yn ddigartref. Mae’r gwaith hwn yn ei dro yn lleihau’r pwysau sydd ar y

gofrestr dai trwy atal unigolion rhag colli eu cartref yn y lle cyntaf. Mae'r data diweddaraf yn dangos ein bod wedi llwyddo i atal rhagor o achosion o ddigartrefedd yn llwyddiannus.

**Proses ailgofrestru**
Mae proses ailgofrestru cais am eiddo cymdeithasol yn digwydd ar hyn o bryd lle gofynnir i drigolion sydd ar y gofrestr dai cyffredin wirio eu cais i sicrhau ei fod yn dal yn gyfredol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y gofrestr mor gyfredol a chywir â phosibl, fydd yn ein helpu i sicrhau bod yr unigolion sydd wir mewn angen am dai yn cael cymorth yn amserol. Mae hon yn broses barhaus, a bydd yn parhau dros y misoedd nesaf. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi darlun gwell i ni o'r angen am dai a'r nifer sydd wir angen bod ar y gofrestr.

**Cyfleoedd newydd a chydweithio â phartneriaid**
Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn chwilio am gyfleoedd newydd yn barhaus er mwyn gallu manteisio ar unrhyw bosibilrwydd i gynyddu'r stoc dai sydd ar gael i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn y broses o gynllunio sut gellir cynyddu unedau llety â chefnogaeth i'r digartref sydd ar gael yn y sir (ac yn ychwanegol i'r hyn fydd yn cael ei ddatblygu trwy'r Cynllun Gweithredu Tai) ac wedi llwyddo i ddod â dau gynllun ymlaen yn gynt trwy drafod gyda'r Llywodraeth. Mae trafodaethau cyson, parhaus, yn digwydd gyda'n Partneriaid Tai i adnabod unrhyw gyfleoedd newydd y gellir manteisio arnynt."

**(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Gwyddom bod pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd, oddieithr dwy, yn disgyn i gategori 3 o ran eu darpariaeth Gymraeg, categori a ddiffinnir gan waelodlin o 60% o'r plant fan leiaf yn gwneud o leiaf 70% o'u haddysg trwy'r Gymraeg.

Y llynedd, o dan yr hen drefn gategoreiddio, roedd trwch yr ysgolion mewn categori â gwaelodlin uwch, gyda'r plant yn gwneud o leiaf 80% o'u haddysg trwy'r Gymraeg.
I osgoi llithriad amlwg yn y ddarpariaeth Gymraeg, ydi'r Adran Addysg a'r Cabinet yn barod i greu polisi 'Categori 3-Gwynedd' er mwyn codi'r waelodlin?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Nid yw'r drefn gategoreiddio genedlaethol newydd yn golygu unrhyw newid o safbwynt gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, ac yn sicr nid yw'n arwain at unrhyw ostyngiad yn ein disgwyliadau. Mae'r disgwyliad ar ein hysgolion i ddarparu addysg Gymraeg a dwyieithog yr un fath, ac mae'r disgwyliad fel bob amser ar ein hysgolion i fanteisio ar bob cyfle i gynyddu eu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae Gwynedd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru o safbwynt y drefn gategoreiddio newydd ac ar yr egwyddor sylfaenol nad oes unrhyw lithriad yn y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r disgwyliad hwn wedi ei nodi'n glir i holl ysgolion Gwynedd er sicrhau ein bod yn manteisio ymhellach ar y drefn gategoreiddio newydd i sicrhau cynnydd pellach yn narpariaeth Gymraeg ein hysgolion."

**(7) Cwestiwn Y Cynghorydd John Pughe Roberts**

"Deallwn fod Adran Rheoli Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd (Adran Amgylchedd / Gwarchod y Cyhoedd) yn nodi arbedion i leihau costau i'r Adran ac yn torri'r

gwasanaeth y tu allan i oriau o Ebrill 2023. Mae'r gwasanaeth tu allan i oriau, wedi'i gwmpasu gan yr Is-adran Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd bob wythnos, ers dros 10 mlynedd.

Hoffwn gael gwybod, o dan amodau'r Ddeddf Cyflogaeth, a ellir gwneud hyn heb unrhyw gostau 'aflonyddwch' i'r staff dan sylw ac os pe bai unrhyw achosion, h.y. gwenwyn bwyd, iechyd a diogelwch / damweiniau, clefydau iechyd anifeiliaid (ffliw adar / clwy'r traed a'r genau) ac unrhyw les anifeiliaid neu sefyllfa 'Covid' debyg, byddai neb i orchuddio gyda'r nos nac ar y penwythnos. Ni allaf ond cymryd yn ganiataol y byddai'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wedyn fod ar gael ar gyfer hyn?

Beth yw'r sefyllfa gyfreithiol?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae'r Adran Amgylchedd fel pob Adran arall yn y Cyngor wedi gorfod adnabod cynigion i gyfrannu tuag at gynlluniau arbedion a thoriadau'r Cyngor.

Cadarnheir fod cynigion arbedion yr Adran yn cynnwys peidio parhau gyda'r gwasanaeth ar alwad tu allan i oriau gwaith arferol, a ddarperir gan swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion iechyd anifeiliaid y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.

Mae'r gwasanaeth ar alwad ar gyfer ymateb i faterion brys tu allan i oriau gwaith wedi gweithredu ers nifer o flynyddoedd, ond rhaid pwysleisio mai trefn wirfoddol yw hon. Nid yw amodau cyflogaeth swyddogion yn mynnu eu bod yn cymryd rhan yn narpariaeth y gwasanaeth yma, ac felly dewisol yw bod yn rhan o'r drefn.

Felly, ni fydd torri'r gwasanaeth ar alwad yn golygu y bydd rhaid i'r Cyngor ddilyn trefn newid amodau cyflogaeth neu gwrdd a unrhyw gostau aflonyddwch i'r aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r drefn yma. Mae Polisi Gwarchodaeth Cyflog y Cyngor ond yn gwarchod lefel cyflog gweithiwr pan mae gostyngiad i raddfa cyflog (o dan amgylchiadau penodol) wedi digwydd.

Nodir hefyd nad yw mwyafrif o gynghorau Cymru bellach yn cynnig trefn penodol ar gyfer delio gyda galwadau sydd yn ymwneud a materion Gwarchod y Cyhoedd, tu allan i oriau gwaith arferol.

Fel rhan o'r broses o adnabod cynigion arbedion, roedd angen rhoi ystyriaeth i beth oedd y risgiau yn ogystal ac os oedd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaeth. I'r perwyl yma edrychwyd ar y nifer a'r math o alwadau dros y flwyddyn diwethaf ac yn ystod 2022, derbyniwyd 21 galwad allan o oriau yn ymwneud a materion iechyd anifeiliaid. Dim ond un o'r 21 galwad ystyriwyd i fod yn fater brys. Yn yr un modd, derbyniodd swyddogion iechyd yr amgylchedd dros 50 o alwadau, a dim ond 2 o'r rhain ystyriwyd i fod yn faterion brys. Gan amlaf, tra ar alwad ni fyddai disgwyl i'r aelod staff o dan y drefn bresennol wneud mwy na rhoi arweiniad cychwynnol ar ddatrysiad priodol yn y tymor byr, gan ddelio'n llawn gyda'r sefyllfa ar y diwrnod gwaith canlynol.

Gan dderbyn na fydd y gwasanaeth yn gallu ymateb i alwadau ar faterion Gwarchod y Cyhoedd o Ebrill 2023 ymlaen, pan y disgwyl yw y bydd y drefn 'ar alwad' yn dod i ben, mae'r ffigyrau uchod yn amlygu fod y risg sydd yn gysylltiedig a peidio parhau gyda'r drefn yn isel iawn. Hefyd, trefn wirfoddol sydd mewn lle ac nid yw'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r

gwasanaeth. Felly, ni chredir y bydd hyn cael effaith mewn gwirionedd ar drigolion Gwynedd.

O Ebrill 2023 ymlaen bydd y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, yn sicrhau y byddai unrhyw fater sydd yn codi tu allan i oriau gwaith, yn cael ei ddelio ag o mor fuan â phosib yn ystod y diwrnod gwaith canlynol.

Rhaid cofio hefyd os byddai'r mater yn un ar raddfa argyfwng fel clwyf traed a'r gennau, achosion o wenwyn bwyd ar raddfa eang, achos o lygredd difrifol neu'n achos o ddamwain angheuol yna bydd y drefn gorfforaethol cynllunio argyfwng yn cael ei weithredu, fel sydd yn digwydd eisoes."

**(8) Cwestiwn Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

"Beth sydd ar waith mewn ysgolion o ran codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o beryglon yr hyn sydd ar lein, a'u dysgu i feddwl yn feirniadol o'r cynnwys sydd ar wefannau cymdeithasol a gofodau ar lein?

Mae'n mynd yn fwyfwy amlwg pa mor beryglus a dylanwadol ydi ambell i ffigyrau ar lein (influencers), yn enwedig y rheini sy'n lledaenu hiliaeth ac yn lledaenu casineb tuag at ferched a'r gymuned LHDTC+.

Faint mae Cyngor Gwynedd yn cymryd y perygl yma i'n pobl ifanc o ddifrif, a be sy'n cael ei wneud i helpu athrawon i daclo hyn?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae pob ysgol gynradd a mwyafrif ysgolion uwchradd Gwynedd wedi cychwyn ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae 6 maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn darparu strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a lles. Mae'n ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd. Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi cael ei fynegi mewn pum datganiad, mae'r rhain yn cefnogi a chadarnhau ei gilydd. Mae'r canlynol yn un o'r pum datganiad:

Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Mae'r cwricwlwm ei hun yn nodi:

Gall y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall rôl bwysig dylanwadau cymdeithasol ar eu bywydau. Mae'r dylanwadau hyn yn cynnwys rheolau, normau cymdeithasol, agweddau a gwerthoedd sy'n cael eu creu a'u hatgyfnerthu gan wahanol grwpiau cymdeithasol. Trwy ymwneud â grwpiau cymdeithasol yr ydyn ni'n profi'r dylanwadau hyn. Maen nhw'n effeithio ar ein hunaniaeth, ein gwerthoedd, ein hymddygiad ac ar ein hiechyd a lles, yn aml heb i ni sylweddoli hynny.

Bydd angen i ddysgwyr ymwneud yn feirniadol â'r dylanwadau cymdeithasol hyn o fewn eu diwylliant eu hunain yn ogystal â diwylliannau eraill, a hyn er mwyn deall sut y mae normau a gwerthoedd yn datblygu. Gall hyn eu galluogi i ddeall sut mae eu hymddygiad, eu perthynas ag eraill a'u profiadau yn cael eu llywio.

I gefnogi’r dysgu mae ystod o adnoddau parod ar Hwb wedi eu teilwra ar gyfer plant, ymarferwyr addysg, rhieni, gofalwyr, teuluoedd a Llywodraethwyr, megis: Casineb ar-lein - Hwb (gov.wales)

Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn cynnig cefnogaeth lle’n briodol ac yn ymwybodol o’r maes, ac y maent eisoes wedi cefnogi mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid yma yng Ngwynedd i addysgu plant a phobl ifanc ac wneud y dewisiadau doeth a herio dylanwadau peryglus.

Mae rhaglen cefnogi ysgolion yr heddlu hefyd yn rhedeg gweithgareddau yn yr union faes yma. Y mae gan bob ysgol swyddog cyswllt ysgolion, a gweler yma rhai o’r adnoddau a ddefnyddir gan yr heddlu gyda’n hysgolion ar y wefan Schoolbeat Cymru - SchoolBeat: Hafan

Ceir yma adrannau pwrpasol ar gyfer rhieni, athrawon a disgyblion – ac mae pwyslais ar ddiogelwch personol trwy’r rhaglen hon.

Yn ychwanegol at hyn mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol ym mhob un o’n hysgolion ac wedi sefydlu ers blynyddoedd, gan cyfarch yr agweddau hyn. Mae’r egwyddor o barch a doethineb yn rhedeg trwy waith y fforymau dysgwyr amrywiol yn ein hysgolion hefyd.”